**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (12)**

**Dydd Iau, 20 Mehefin 2002**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

***Cynigiodd y Gweinidog dros Lywodraeth Agored gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y cynigion heb ddyddiad trafod canlynol a gyflwynwyd ar 17 Mehefin.***

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol**

O blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 30

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol.**

**Ethol Mick Bates i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd**
***NNDM1086 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*, yn unol ag Adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ethol Mick Bates (Democrat Rhyddfrydol) i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i lenwi'r lle gwag ar y pwyllgor hwnnw yn dilyn ymddiswyddiad Mike German (Democrat Rhyddfrydol).

**Ethol Carwyn Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
***NNDM1087 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*, yn unol â Rheol Sefydlog 14 yn ethol Carwyn Jones (Llafur) yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn lle Edwina Hart (Llafur).

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 33; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 33

**Derbyniwyd y cynnig.**

**9.08am**
**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**9.33am**
**Cwestiynau i Mike German, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor**
Atebwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

**9.50am**
**Datganiad: Gwnaeth y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ddatganiad ar ei hymweliad â'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

**Cymeradwyo Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau a Cheisiadau Tybiedig) (Diwygio) (Cymru) 2002 - *Ni symudwyd yr eitem hon.***

**Cymeradwyo Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 - *Ni symudwyd yr eitem hon.***

**Cymeradwyo Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 - *Ni symudwyd yr eitem hon.***

**10.09am**
**Cymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 23.10, Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm y Lefelau o Waddod mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Diwygio) 2002**
***NDM1085 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10

Yn cymeradwyo *The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food & Feeding Stuffs) (Amendment) Regulations 2002* [drafft], y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 34

**Derbyniwyd y cynnig.**

**10.10am**
**Dadl ar Gomisiwn Pwerau a Threfniadau Etholiadol y Cynulliad**
***NDM1084 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn croesawu sefydlu'r Comisiwn ar Bwerau'r Cynulliad a Threfniadau Etholiadol;

2. Yn cymeradwyo cylch gwaith y Comisiwn, a e-bostiwyd at Aelodau ar 13 Mehefin 2002;

3. Yn edrych ymlaen at benodi Aelodau'r Comisiwn ym mis Gorffennaf ac at ddatblygiad ei waith maes o law.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Yn pwynt 1:
Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Yn pwynt 2:
Dileu 'Cymeradwyo' a rhoi 'Nodi' yn ei le.

**Gwelliant 3 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 3, ac ychwanegu pwynt newydd:
'Yn nodi y bydd Aelodau'r Comisiwn yn cael eu penodi ym mis Gorffennaf ac y bydd y rhaglen waith yn datblygu o hynny ymlaen.'

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 7; Ymatal 12; Yn erbyn 26; Cyfanswm 45

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 7; Ymatal 12; Yn erbyn 25; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3**

O blaid 7; Ymatal 12; Yn erbyn 25; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Y cynnig**

O blaid 26; Ymatal 12; Yn erbyn 7; Cyfanswm 45

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Pwynt o Drefn**

**Brian Gibbons** ynghylch y drefn y gelwir Aelodau i siarad mewn dadleuon.

**11.20am**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
***NDM1083 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ailddatgan ei ymrwymiad i gefnogi gwasanaethau iechyd arbenigol i blant yng Nghymru, a ddylai fod ar gael drwy Gymru gyfan ac a ddylai adlewyrchu anghenion y claf.

2. Yn condemnio'r argymhelliad yn adroddiad Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i symud llawdriniaeth nerfol pediatrig o Abertawe i Gaerdydd.

3. Yn cefnogi'r gwaith o ehangu a datblygu Canolfannau Rhagoriaeth a sefydliadau hyfforddi a fydd yn atgyfnerthu Ysgolion Meddygol Clinigol yng Nghymru.

Mae copi o adroddiad Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar gael yn llyfrgell y Cynulliad.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu pwyntiau 2 a 3 a’u newid a rhoi pwyntiau newydd 2 a 3 yn eu lle:
2. Yn nodi y bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar yr argymhellion yn Adroddiad Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar wasanaethau arbenigol i blant mewn perthynas â llawdriniaeth nerfol pediatrig rhwng Gorffennaf a Medi eleni.
3. Yn cefnogi'r gwaith o ehangu addysg a hyfforddiant meddygol fel y nodir yn "Gwella Iechyd yng Nghymru".

Gellir cael "Gwella Iechyd yng Nghymru" ar y fewnrwyd trwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol:

http://assembly/health/Key%20Publications/NHS%20Plan/nhsplan-e.pdf

Mae copi o adroddiad Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar gael yn llyfrgell y Cynulliad.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
4. Yn credu y dylai newidiadau mawr a gynllunnir i Wasanaethau'r GIG gael eu barnu gan gorff neu gomisiwn annibynnol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 18; Cyfanswm 43

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 7; Ymatal 12; Yn erbyn 26; Cyfanswm 45

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Y cynnig fel y'i diwygiwyd**

O blaid 26; Ymatal 12; Yn erbyn 7; Cyfanswm 45

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

**Croesawodd y Dirprwy Lywydd ddirprwyaeth o Gyngres Pobl Libia, a oedd yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus.**

**12.33pm**
**Dadl Fer: *NDM1082* Peter Rogers (Gogledd Cymru): Yr Argyfwng yn ein Cartrefi Gofal**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 25 Mehefin 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a osodwyd ar 20 Mehefin 2002**

Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1484

**Dogfennau a osodwyd ar 19 Mehefin 2002**

Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfydyddau Gweledol - LD1483

The Wye Navigation Order 2002 - LD1480. *Dim copi Cymraeg ar gael.*
Proposed Wye Navigation Order - Explanatory Memorandum - LD1481. *Dim copi Cymraeg ar gael.*
The National Assembly for Wales: Race Equality Scheme 2002-03 - LD1482. *Dim copi Cymraeg ar gael.*